# Stori Kayla

**Taflen senario**

MAE'CH DATA CHI'N CYFRIF

Amlygwch unrhyw beth yn y stori isod a allai fod yn torri'r Cod Plant yn eich barn chi.

## Stori Kayla

Mae Kayla yn 14 oed ac yn cofrestru ar gyfer cyfrif ar Skroll, llwyfan newydd yn y cyfryngau cymdeithasol mae ei ffrindiau'n ei ddefnyddio. I gofrestru mae'n rhoi ei henw, ei hoedran, ei rhywedd a'i chyfeiriad ebost.

Ar y ffordd i'r ysgol mae hi'n uwchlwytho hunlun ac yn tagio ei ffrindiau i roi gwybod bod ganddi hi gyfrif Skroll erbyn hyn. Wrth i'r llun uwchlwytho, mae Kayla'n sylwi bod y llun wedi'i dagio'n awtomatig gyda'i lleoliad hi. Erbyn iddi gyrraedd yr ysgol, mae llawer o bobl wedi hoffi'r llun, gan gynnwys pobl nad yw hi'n eu nabod.

Ar ôl ysgol, mae Kayla yn dilyn ei hoff ddylanwadwr, sy'n cael ei thalu am bartneriaeth newydd gyda brand treinars. Mae Kayla yn clicio ar y llun, sy'n mynd â hi i wefan y brand.

Dros y dyddiau nesaf mae Kayla'n cael llawer o hysbysebion o hyd am dreinars tebyg.

Mae angen i Kayla wneud darn mawr o waith ysgol, felly mae hi'n penderfynu cymryd seibiant o Skroll. Y noson honno mae'n cael hysbysiad gan yr ap sy'n dweud, 'Dan ni'n gweld dy eisiau di ar Skroll. Edrycha beth mae dy ffrindiau wedi'i bostio heddiw!'

Mae hi'n clicio ar bolisi preifatrwydd yr ap i ddeall sut mae'r ap yn defnyddio'i data personol ond mae'n hir ac yn gymhleth iawn, felly mae hi'n rhoi'r gorau iddi.

## Trafodwch gyda'ch pâr:

1. Sut gallai Kayla deimlo pan fydd hi'n cael llawer o hysbysebion yn seiliedig ar ei hanes pori? Pam mae hi'n teimlo fel hyn yn eich barn chi?

2. Pam rydych chi'n meddwl bod yr ap wedi anfon hysbysiad at Kayla? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn cydymffurfio â'r Cod Plant?

3. Beth fyddai'ch cyngor chi i Kayla yn y sefyllfa yma?



ico. Information Commissioner's Office